

## Llywodraeth Cymru: Dogfen Ymgynghori

### Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Ymateb gan Vaughan Salisbury

Cynrychiolydd Addysg Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru  
Swyddog Addysg Eglwys Bresbyteraidd Cymru

#### Cwestiynau ac Atebion:

1. Ydych chi'n cytuno â'n dull o ddeddfu ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd?  
(Tudalen 25 – ffeil PDF)

Ydym.

2. Ydych chi'n cytuno y dylem roi dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir i ddarparu cwricwlwm i helpu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gyrraedd y Deilliannau Cyrhaeddiad a osodir gan yr ysgol, neu ragori arnynt, ac i helpu plant i symud ar hyd y continwmm a'r Camau Cynnydd yn unol â'u datblygiad addysgol? (Tudalen 25)

Ydym.

Rydym yn derbyn yr hyn sydd ym **mhwynt 3.22**, sef bod y cyfeiriadau at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol disgyblion wedi'u eu disodli gan Bedwar Diben y Cwricwlwm Newydd. Rydym felly yn croesawu bod elfennau ysbrydol a moesol yn cael eu cynnwys fel un o'r nodweddion allweddol, h.y. 'Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn unigolion iach, hyderus, sydd: â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol'. Edrychwn ymlaen at weld sut fydd hwn yn cael ei weithredu pan gyhoeddir y ddogfen ymgynghorol ar gynnwys manwl y cwricwlwm newydd ym mis Ebrill 2019.

Hefyd **Pwynt 3.23**. Dau sylw:

- a) Y trydydd pwynt bwled. Yn y ddogfen Gymraeg mae'n darllen 'Dinasyddion egwyddorol ..' ond yn y Saesneg mae 'Ethical ..'. Mae'r Saesneg yn gryfach ac felly rydym yn awgrymu y dylid newid y fersiwn Cymraeg i 'Dinasyddion moesol ..'
- b) Eto, y trydydd pwynt bwled. Gan ystyried yr heriau cyfoes sy'n wynebu'r byd a bod persbectif '..yng Nghymru a'r byd ..' dan sylw yma, rydym o'r farn y byddai'n briodol cynnwys y gair 'ysbrydol' ar ddechrau'r ymadrodd hwn. Awgrymwn 'Dinasyddion ysbrydol, moesol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;..'

4. Pa gymorth fyddai ei angen i alluogi ysgolion i gymryd y camau hynny? (Tudalen 25)  
Un ffynhonnell o gymorth fyddai penodi ymgynghorwyr llawn amser sydd ag arbenigedd pynciol ac a fyddai'n gallu rhoi cymorth i athrawon yn lleol. (gweler hefyd ein sylw yn ateb i gwestiwn 9 pwynt 3.68). Un o wendidau amlwg y gyfundrefn bresennol wrth weithredu'r cwricwlwm newydd yw'r diffyg ymgynghorwyr llawn amser sydd ag arbenigedd pynciol ar lefel Awdurdod Lleol.
6. Ydych chi'n cytuno â gwneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n addas o ran oedran a datblygiad, yn orfodol i blant 3-16 oed? (Tudalen 30)

Ydym

7. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r pŵer gwneud canllawiau er mwyn iddo gael ei ddylunio i sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran a datblygiad i'r plant sy'n ei derbyn? (Tudalen 31)

Ydym

8. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ddewisol i ddysgwyr chweched dosbarth? (Tudalen 31)

Nid ydym yn cytuno gyda'r cynigion hyn ac rydym o'r farn y byddai'n werthfawr i ddysgwyr chweched dosbarth barhau i dderbyn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

9. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol? (Tudalen 34)

Rydym yn derbyn ac yn croesawu'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol sydd yn y pwyntiau canlynol: 3.65, 3.67, 3.68 (llinell 6 '(CYSAGau)' dylai hwn fod yn CCYSAGauC), 3.69, 3.70, 3.71 a 3.72.

### **Pwynt 3.66:**

Mae Deddf Addysg 1996, Adran 375 (3) yn datgan 'Bydd pob maes llafur cytûn yn adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol Prydain Fawr, ar y cyfan, yn rhai Cristnogol ond bydd yn rhoi sylw i ddysgeidiaeth ac ymarferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr'.

Gan ei fod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol (gweler uchod) i 'rhoi ystyriaeth i safbwyntiau anghrefyddol am y byd', gwerthfawrogwn y cyfle pan y daw i archwilio geiriad y ddeddfwriaeth newydd.

Hefyd, hoffwn godi'r cwestiynau canlynol:

Yn gyntaf, yr ymadrodd '...rhoi ystyriaeth i safbwyntiau anghrefyddol..' Beth yn union mae 'rhoi ystyriaeth' yn ei olygu yma? A ddisgwylir i'r safbwyntiau hyn gael eu haddysgu ym mhob Cam Cynnydd? Os bydd dyneiddiaeth yn cael ei addysgu ac oherwydd natur athronyddol y safbwynt hwn, rydym yn awgrymu ei fod yn cael ei addysgu i'r oedran 11-16 yn unig. Yn ogystal, faint o amser/oriau y dylid ei roi i addysgu'r safbwynt hwn? Gan dderbyn mai Cristnogaeth fydd yn cael y nifer mwyaf o oriau addysgu, rydym o'r farn na ddylid rhoi mwy o amser i addysgu dyneiddiaeth na'r hyn a roddir i addysgu unrhyw un o'r prif grefyddau eraill mewn maes llafur Cytûn sirol.

Yn ail, mater 'safbwyntiau anghrefyddol' .. '(e.e. dyneiddiaeth)'. Mae hwn yn rhy benagored. Faint o safbwyntiau anghrefyddol mae disgwyl i athrawon addysgu? Dyneiddiaeth sy'n cael ei nodi yma fel enghraifft ond a oes rhai eraill mewn golwg, e.e. Marcisiaeth Tsieina neu athroniaeth Stoiciaeth Fodern ayb? Os bydd disgwyl i fwy nag un o'r safbwyntiau hyn gael eu haddysgu, bydd goblygiadau sylweddol i gyflwyniad y maes llafur Addysg Grefyddol, h.y. bydd gormodedd o gynnwys a bydd ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn dioddef. O ystyried y materion uchod, rydym o'r farn mai 'dyneiddiaeth' yn unig ddylai gael ei addysgu fel y safbwynt anghrefyddol yn y cwricwlwm Addysg Grefyddol.

Yn drydydd, pwy sydd i benderfynu ar y materion uchod? Ai mater deddfwriaethol ydyw, neu a fydd y mater yn cael ei gyflwyno yn y ddogfen ar y cwricwlwm newydd ac asesu (Ebrill 2019), neu a fydd disgwyl i GYSAGau sirol benderfynu yn ei gylch? Rydym ni o'r farn y byddai'n well cael arweiniad clir ar y mater hwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb cwricwlaidd yn hytrach na disgwyl i GYSAGau sirol benderfynu yn ei gylch.

Mae anghysondeb yn y fersiwn Cymraeg sef bod dau derm gwahanol, sef 'anghrefyddol' a 'nad ydynt yn grefyddol' yn cael eu defnyddio am 'non-religious'. O ystyried bod y cyd-destun yn un addysgol ac am resymau cysondeb rydym o'r farn y dylid mabwysiadu 'nad ydynt yn grefyddol' fel y term Cymraeg am 'non-religious'.

### **Pwynt 3.68:**

Mae'r bwriad i gael '...fframwaith i gefnogi Addysg Grefyddol ..' yn un pwysig a gwerthfawr ond pwy fydd yn sicrhau y bydd yn cael ei gyflwyno a'i fonitro i'r safon uchaf posib yn yr ysgolion? Gan ystyried fod ond 2 allan o 22 awdurdod lleol yng Nghymru bellach ag ymgynghorydd llawn amser Addysg Grefyddol arbenigol i arwain ar y mater hwn, mae hyn yn achos pryder gwirioneddol i ni. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid digonol i sicrhau bod y cwricwlwm newydd cyffrous hwn yn cael ei gyflwyno mewn modd safonol, bod athrawon yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol a bod y cynllun yn cael ei fonitro ai gefnogi'n bwrpasol trwy benodi

ymgynghorwyr Addysg Grefyddol arbenigol llawn amser fyddai'n gweithio yn yr awdurdodau lleol.

10. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud Addysg Grefyddol yn ddewisol i ddysgwyr yn y chweched dosbarth? (Tudalen 34)

**Pwynt 3.73:**

Na, nid ydym yn cytuno gyda'r cynnig hwn. Nid oes unrhyw reswm yn cael ei gyflwyno yn y paragraff dros yr angen i wneud Addysg Grefyddol yn ddewisol i'r dysgwyr hyn ac rydym ni o'r farn y dylid parhau â'r ddarpariaeth bresennol sef bod rhaid i holl ddysgwyr y chweched dosbarth astudio Addysg Grefyddol. Yn wir, rydym ni o'r farn y byddai astudio materion crefyddol/moesol yn werthfawr iawn i fyfyrwyr chweched dosbarth.

11. A ddylid cadw'r hawl i dynnu allan o AG ac ACR? (Tudalen 34)

Mae ein sylwadau yma yn cyfeirio'n unig at Addysg Grefyddol.

**Pwynt 3.74:**

Rydym o'r farn na ddylid cadw'r hawl i dynnu allan o Addysg Grefyddol. Roedd cyfiawnhad dros wneud hyn yn 1870 pan ganiatawyd i rieni o draddodiad ymneilltuol dynnu eu plant allan o ddysgeidiaeth ac addoli Anglicanaidd mewn ysgolion Anglicanaidd. Heddiw, yn yr unfed ganrif ar hugain, ystyrir y pwnc *Addysg Grefyddol* mewn ysgolion a gynhelir yn bwnc *addysgol* fel pob pwnc arall ar gwricwlwm ysgol, h.y. dylid ei addysgu o bersbectif *addysgol* ac mewn modd gwbl broffesiynol. Am y rhesymau hyn a chan ystyried y byd rydym yn byw ynddo heddiw, rydym o'r farn ei bod yn hynod bwysig fod **pob** disgybl yn cael y cyfle i astudio Addysg Grefyddol yn ein hysgolion ac yn datblygu'n ddysgwyr gwybodus, uchelgeisiol a hyderus.

13. Os caiff yr hawl i dynnu allan ei dileu, pa ddewis arall, os o gwbl, ddylai fod yn ei le? (Tudalen 35)

Rydym ni o'r farn y dylid dileu'r hawl i dynnu allan ac na ddylid rhoi dewis arall o gwbl. Sicrhau addysgu Addysg Grefyddol o'r safon orau posib yw'r hyn sydd ei angen a dim llai.

22. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt. (Tudalen 55)

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y ddogfen ymgynghorol hon yn cymryd i ystyriaeth ddiwygiadau AGA ac y 'dylai partneriaethau AGA fod yn glir ynghylch y gweithgareddau sydd yn eu rhaglenni ar gyfer datblygu athrawon dan hyfforddiant i addysgu'r cwricwlwm newydd'.